IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD MERCHER, 27 GORFFENNAF 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Michael(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Jenkins a/ac Kaaba |

5 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

6 : CAIS AM NEWID TRWYDDED SAFLE – THE BIRCHGROVE INN

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Ymgeiswyr: | Leanne Morrall (Rheolwr Ardal), Claire Robertson (Rheolwr Rhanbarthol) a Carly Booth (GSD) – Marstons PLC<br>Cynrychiolir gan: Michelle Hazlewood – John Gaunt Cyfreithwyr |
| Pobl Eraill | Mrs Fenella Bowden<br>Mr Alwyn Meredith |

Mae cais i amrywio Trwydded Safle wedi ei dderbyn gan Marston's PLC mewn perthynas â The Birchgrove Inn, Heol Caerffili, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Disgrifiad o natur yr amrywiad (fel y nodir gan yr ymgeisydd):

"Gwneir cais i amrywio'r Drwydded Safle. Mae'r safle i gael budd o ailwampio sylweddol a fydd yn arwain at waith yn cael ei wneud tu mewn a thu allan y safle. Gwneir cais i newid y Drwydded Safle mewn perthynas â thair elfen:

1. Gwneir cais i amrywio cynllun mewnol ac allanol y safle fel y disgrifir yn y llun 04.22/93114/40, a nodir yn Atodiad A i'r adroddiad

2. Amodau
Cynhaliwyd adolygiad o'r amodau a nodir bod rhai amodau yn cyfeirio at gyn-berchennog a gweithredwr y safle a/neu ardaloedd nad ydynt yn bodoli mwyach, ac roedd angen diweddaru'r amodau mewn perthynas â phlant.

   Mae'r amodau ychwanegol a gynigir ac a dderbyniwyd gan Heddlu De Cymru i'w gweld yn Atodiad B i'r adroddiad ac mae'r amodau a gynigiwyd gan heddlu De Cymru ac a gytunwyd gan yr ymgeisydd ynghlwm yn Atodiad C.

3. Enw

   Wrth ailagor bydd y safle yn cael ei alw'n The Birchgrove Inn. Mae'r ymgeisydd yn ceisio diwygio'r enw fel rhan o'r cais.

   Ni chynigir unrhyw newidiadau o ran yr oriau ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy neu agor. Ni rhagwelir y bydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol ar y pedwar amcan trwyddedu.

Mae'r ardal allanol blaen wedi cael ei defnyddio'n helaeth yn y gorffennol heb faterion yn codi.

Mae'r ardal allanol newydd yn cael ei cwmpasu gan ffens felly yn darparu rheolaeth a lliniaru sŵn. O'r herwydd, nid yw'r atodlen weithredu ac eithrio ar gyfer y gwelliannau a nodir uchod wedi'i diwygio.

(2) Oni nodir yn wahanol, gall y safle fod ar agor i'r cyhoedd. Yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau canlyniadol i'r amseru ansafonol:

Dydd Llun i Ddydd Sul: 10:00 i 00:00 o'r gloch.

(3) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:

Dydd Llun i Ddydd Sul: 10:00 i 23:30 o'r gloch

(ii) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf chwaraeon dan do, cerddoriaeth fyw (dan do) a cherddoriaeth wedi'i recordio (dan do):

Dydd Llun i Ddydd Sul: 10:00 i 23:30 o'r gloch

(iii) Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (dan do ac awyr agored):

Dydd Llun i Ddydd Sul: 10:00 i 23:30 o'r gloch

Ffurflen Gais

Michelle Hazelwood o John Gaunt cyfreithwyr gyflwynodd y cais.

Rhoddodd wybodaeth gefndirol, sef bod y cais wedi'i wneud ar ran Marston's PLC a oedd wedi caffael 140 o dafarndai a weithredwyd yn flaenorol gan SA Brains, i sicrhau eu hirhoedledd. Mae buddsoddiad cyfalaf mawr wedi bod yn y dafarn, am y swm o £500,000. Mae'r dafarn wedi cael ei hadnewyddu'n llwyr a phob dim wedi'i amnewid.

Mae'r Birchgrove Inn fel a gaiff ei adnabod, gan nad oes ganddo ystafelloedd mwyach, wedi'i hailwampio'n llwyr i safon uchel iawn. Y nod yw iddi ddod yn dafarn deuluol ac addas i fenywod. Mae cynnydd eisoes wedi bod mewn gwerthiant bwyd ac mae mwy o fenywod ar y safle, yn sicr amser cinio.

Nododd yr Is-Bwyllgor fod yr amodau a awgrymwyd gan yr ymgeisydd a Heddlu De Cymru wedi eu cytuno gan yr holl bartïon. Ni fyddai sylwadau gan Heddlu De Cymru.

Fe wnaeth Ms Hazelwood annerch y pwyllgor ar sail y gwrthwynebiadau a godwyd:

- Darparwyd dyfyniad o'r Gofrestrfa Tir a thrawsgludiadau hanesyddol. Cyflwynwyd nad oes problem gyda pherchnogaeth ac nad yw perchnogaeth yn berthnasol i'r ddeddfwriaeth hon; nid yw'n rhywbeth yr ymdrinnir ag ef o dan y Ddeddf Trwyddedu. Mae'r un peth yn wir am y gwrthwynebiad ar y sail na fu cais cynllunio.

- Roedd Ms Hazelwood ar ran yr ymgeisydd yn derbyn bod Heol Caerffili yn ffordd brysur, mae llinellau melyn dwbl ar y ffordd, mae nifer o adeiladau masnachol gerllaw ac mae yna ysgol hefyd. Byddai unrhyw anawsterau yn fater i'r adran Briffyrdd ddelio â nhw.
- Gan gyfeirio at lygredd golau, mae goleuadau wedi bod erioed yn ardaloedd allanol y safle, mae rhagor o oleuadau bellach wedi'u gosod. Mae'r goleuadau sydd bellach wedi'u gosod yn watedd isel, 5watt neu lai ac nid ydynt mor ddisglair â'r goleuadau halogen blaenorol. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion gan drigolion o flaen y safle; mae'r golau'n llai ac wedi'u ffocysu i lawr ac yn ddiffwsedig.

- O ran delio â throsedd ac anhrefn mae Heddlu De Cymru wedi cadarnhau nad oes unrhyw gwynion wedi bod yn deillio o ddigwyddiadau yn y safle hwnnw; nid yw unrhyw drosedd nac anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dod o'r safle. Ceir cyfeiriad at ddigwyddiad, a oedd mewn perthynas â gwylnos; roedd archeb wedi ei dderbyn a gafodd wedyn ei ganslo o ganlyniad i bryderon wedi eu codi gan yr heddlu lleol. Ni achoswyd unrhyw drafferthion wedi hynny gan y safle.

- Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion sŵn; Mae cerddoriaeth fyw wedi bod yn y safle ers 15 – 20 mlynedd, fel arfer byddai hynny yng nghefn y safle ond mae hwnnw bellach wedi dod yn lle bwyta ac maes o law y gobaith yw y bydd modd ei ddefnyddio i'w logi yn breifat. Mae'r bandiau bellach wedi eu symud i flaen y safle. Mae'r awdurdodau trwyddedu wedi cadarnhau eu bod yn hapus bod y safle'n gweithredu'n unol â'r amodau.

  Mae glaswellt ffug wedi cael ei osod yn yr ardal allanol gefn, mae hyn yn helpu gyda'r sŵn pan fydd y casgenni'n cael eu danfon. Erbyn hyn mae meinciau ac ymbarelau, digon o le i tua 16 o bobl efallai. Ers cwblhau'r gwaith o adnewyddu a defnyddio'r ardal allanol does dim cwynion wedi bod.

- O ran y llygredd mwg, yr amcan yw i'r ardal gefn allanol ddod yn fwy cyfeillgar i deuluoedd. Ni fydd blychau llwch yn cael eu rhoi yn yr ardal honno a bydd ysmygwyr yn cael eu cyfeirio at y lloches ysmygu ar wahân, fodd bynnag, nid yw'n bosib atal pobl rhag ysmygu'n gorfforol yn yr ardal honno.

- Derbynnir fod anawsterau gyda thagfeydd ar y palmant y tu allan i'r safle pan gafodd yr holl wydrau a'r offer newydd eu danfon; roedd yna lawer iawn o gardfwrdd y bu rhaid ei waredu. Gan fod y safle bellach i fasnachu arferol ni fydd hynny'n cael ei ailadrodd.

  Mae'r pafin yn llydan y tu allan i'r safle, yn anffodus nid yw'n bosib i'r ymgeisydd atal mamau rhag parcio ar y pafin i fynd â'u plant i'r ysgol; y postman a'r dynion casglu biniau. Nid oes gan yr ymgeisydd bwerau gorfodi.

  Dyw gwaith y cart cwrw ddim wir wedi newid, mae pobl dal yn gallu cerdded o'i flaen ar y palmant.

O ganlyniad i gwestiynau gan yr Is-Bwyllgor a phartïon eraill darparwyd y wybodaeth ganlynol:

- Yn ôl yr aelodau, mewn perthynas â'r wylnos a gafodd ei ganslo, roedd archeb dros y ffôn wedi'i derbyn ar gyfer 100 o bobl, bod bwyd wedi'i wneud yn unol â'r cyfarwyddiadau; fodd bynnag yn sgil sgwrs rhwng Swyddog Cymunedol yr Heddlu lleol a'r rheolwr rhanbarthol penderfynwyd canslo'r archeb. Cafodd y dafarn ei chau a dychwelwyd y blaendal y diwrnod canlynol.

- Ers cwblhau'r gwaith adnewyddu mae ardal y biniau bellach yn gweithio'n arferol, mae'r biniau wedi'u cloi i lawr ac yn cael eu rhoi allan ar y dyddiad casglu perthnasol. Daeth aelod o'r tîm perthnasol i wirio'r sefyllfa yn ddiweddar ac roedd yn fodlon gyda'r trefniadau.

  Mae'r biniau'n aros yn yr ardal dan glo tan y cânt eu tynnu allan i'w casglu; ddwywaith yr wythnos.

- Cafodd y gwrthwynebwyr wybod nad oedd yr ardal eistedd tu allan heb ei thrwyddedu ar unrhyw adeg gan fod trwydded gwerthu oddi ar y safle.

- Dywedodd Ms Hazelwood fod ymgynghoriad wedi bod cyn i'r gwaith adnewyddu gael ei wneud, yn enwedig ynglŷn â rhai o'r eitemau treftadaeth; y tân agored, a'r dreigiau. Roedd y gymuned leol eisiau i'r eitemau hynny gael eu cadw. Ymhellach, bod blaen y tŷ tafarn yn sicr yn cael ei ddangos ar drawsgludiad 1929, mae'r ôl troed presennol bron yn union yr un fath â'r hyn a ddisgrifir yn y trawsgludiad hwnnw.

- Mynegodd Mr Meredith bryder bod yr hysbysiadau wedi cael eu harddangos yn anghywir, ac nid ar y ffenest fel yr oedden nhw i fod. Roedd y Swyddog Trwyddedu wedi dweud bod lleoli'r hysbysiadau wedi cael eu gwirio, fel sy'n arferol, gan aelod o'r tîm ac fe gawson nhw eu harddangos yn gywir.

<u>Sylwadau i Wrthwynebwyr:</u>

Fenella Bowden sy'n annerch yr Is-bwyllgor. Roedd hi'n derbyn nad oedd perchnogaeth y tir a'r diffyg cynllunio yn bwysig i'r is-bwyllgor hwn. Mynegodd bryder am y diffyg ymgynghori ffurfiol, yn enwedig gan gofio effaith y newidiadau ar yr ardal leol. Er ei bod yn nodi'r sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r goleuadau mae hi'n poeni am ba mor agos yw hi i rif 5 Birchgrove Road.

Cyfeiriodd at y ffotograffau a ddarparwyd yn y papurau, a chyflwynodd fod yna flychau llwch ar y byrddau; Mae hi'n credu ei fod yn rhy agos at eiddo preswyl a does dim ystyriaethau wedi eu gwneud yn hynny o beth.

Mae pryderon am barcio y tu allan i'r safle a'r danfoniadau. Mae'r danfoniadau'n creu tagfeydd priffyrdd. Cyn hynny bu bolardiau symudol ar y palmant y tu allan i'r dafarn, ac y gellid tynnu un bolard ar gyfer parcio'r rheolwyr yno pan oedd angen lle tra bod y cart cwrw yn cael ei ddanfon. Mae'n rhywbeth y dylid ei ddefnyddio eto. Byddai'n osgoi pobl yn parcio ar y pafin.

Cyflwynodd Mr Meredith ei fod wedi prynu’r tŷ i'w fab, ni all ei fab ddefnyddio'r ardd oherwydd y sŵn a'r mwg. Ei wal y mae'r byrddau a'r ymbarelau yn ei herbyn. Cafodd y wal ei bochio a'i chracio. Mae biniau ar y ffordd drwy'r amser, mae'r cerbyd dosbarthu yn blocio'r palmant; ni fyddai’n hir cyn i rywun gael ei anafu neu ei ladd.

Dywedodd y dylai'r hen iard gael ei rhoi yn ôl fel yr oedd cyn yr adnewyddiad oedd yn darparu lle ychwanegol i'r cart cwrw.

Dywedodd yr ymgeisydd fod cyfarfod wedi bod ynglŷn â'r wal ffin gyda Mr Meredith. Pan gynhaliwyd y gwaith cynigiwyd llawer o baentio roedd y rendr ar y wal mewn cyflwr o'r fath y byddai angen ei selio cyn iddo gael ei baentio. Cafodd hyn i gyd ei gyfleu i Mr Meredith a gynigiodd fod y wal gyfan yn cael ei hail-rendro ar draul Marston. Fodd bynnag, roedden nhw'n teimlo bod y gost yn ormodol ac felly'n cynnig selio'r wal cyn paentio. Cafodd y cynnig hwnnw ei wrthod.

I grynhoi

Wrth grynhoi dywedodd Mr Meredith fod yr ardaloedd allanol newydd yn rhy swnllyd ac hefyd yn arwain at broblemau gyda thraffig.

Crynhodd Ms Hazelwood drwy ddweud bod y safleoedd wedi bod wrth ymyl ei gilydd ers 100 mlynedd; Does dim cwynion wedi bod. Mae swyddogion o Heddlu De Cymru ac Iechyd yr Amgylchedd i gyd wedi bod i'r safle ac nid ydynt wedi lleisio unrhyw bryderon. Mae'r gyfres o amodau sydd wedi'u cytuno rhwng y partïon yn briodol ac yn gymesur. Mae'r dafarn yn cael y budd o werthu alcohol, gall yr ardaloedd allanol gael ac maen nhw wedi eu defnyddio. Gwneir y cais i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd i'r rhai sy'n gysylltiedig a'r cyhoedd.

PENDERFYNWYD: Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn CYMERADWYO y cais.

Clywodd yr Is-bwyllgor gan yr ymgeisydd a gwrandawodd ar yr holl dystiolaeth a chyflwyniadau ac ystyriodd y deunydd ysgrifenedig. Hefyd ystyriodd yr Aelodau Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a'r Datganiad Polisi Trwyddedu.

Clywodd yr Is-Bwyllgor gan yr ymgeisydd a chlywed sylwadau a wnaed gan aelodau'r cyhoedd a hefyd yn ystyried yr holl sylwadau ysgrifenedig a wnaed. Nodwyd hefyd fod yr ymgeiswyr wedi derbyn amodau arfaethedig Heddlu De Cymru cyn y cyfarfod, Atodiad C i'r adroddiad.

Cydnabu'r Is-Bwyllgor bryderon y gwrthwynebwyr; fodd bynnag, wrth benderfynu ar y cais hwn, gall yr Is-bwyllgor Trwyddedu ond ystyried materion sy'n effeithio ar yr amcanion trwyddedu o ganlyniad i'r gweithgaredd trwyddedu. Nodwyd bod gan y safle hwn drwydded safle eisoes sy'n cynnwys gwerthu alcohol, felly maent wedi cael defnyddio'r gofod y tu allan. Roedd nifer o faterion yn ymwneud â pharcio hefyd a pherchnogaeth y tir sy'n disgyn y tu allan i gylch gwaith y pwyllgor hwn.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor y sylwadau gan bobl eraill ond teimlai na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth y byddai cymeradwyo'r cais hwn yn tanseilio'r amcanion trwyddedu. Os nad oes tystiolaeth y bydd Trwydded Safle yn tanseilio'r amcanion trwyddedu, rhagdybir y caniateir y cais. Os oes tystiolaeth bod safle trwyddedig yn tanseilio'r amcanion trwyddedu, mae Deddf Trwyddedu 2003 yn galluogi unrhyw berson i wneud cais am Adolygiad o'r Drwydded Safle. Felly, penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt gyda Heddlu De Cymru.

## 7 : CAIS AM ROI TRWYDDED SAFLE - TIGER YARD, PORTH TEIGR

Yn bresennol:

Ymgeiswyr: Nicholas Saunders (Depot Warehouse Limited)
Peter Cro (Depot Warehouse Limited)
Cynrychiolir gan: Martin Jones (Hugh James, Cyfreithwyr)

Mae cais wedi dod i law am Grant Trwydded Safle gan Depot Warehouse Limited mewn perthynas â Tiger Yard, Plat A, Heol Porth Teigr, Caerdydd, CF10 4GA.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:

(ii) Darparu adloniant rheoledig ar ffurf dramâu (dan do ac yn yr awyr agored), ffilmiau (dan do ac yn yr awyr agored), chwaraeon dan do, cerddoriaeth fyw (dan do ac yn yr awyr agored), cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do ac yn yr awyr agored), perfformiad dawns (dan do ac yn yr awyr agored) ac adloniant o ddisgrifiad tebyg (dan do ac yn yr awyr agored).

(iii) Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (dan do ac yn yr awyr agored).

(2) Disgrifiad o natur yr amrywiad (fel y nodir gan yr ymgeisydd):

'Marchnad ag adloniant rheoledig sy'n dangos digwyddiadau chwaraeon a chynnal ystod o ddigwyddiadau mewn gwahanol rannau o'r safle, gan gynnwys adeiladau a strwythurau dros dro ond heb fod yn gyfyngedig iddynt'.

(3) Oni nodir yn wahanol, gall y safle fod ar agor i'r cyhoedd. Yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau canlyniadol i'r amseru ansafonol:

Dydd Llun i Ddydd Sul: 10:00 i 00:00 o'r gloch.
Nos Galan: 10:00 tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan

(4) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:

Dydd Llun i Ddydd Sul: 10:00 i 23:30 o'r gloch
Nos Galan: 10:00 tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan

(ii) Darparu adloniant rheoledig ar ffurf dramâu (dan do ac yn yr awyr agored), ffilmiau (dan do ac yn yr awyr agored), chwaraeon dan do, cerddoriaeth fyw (dan do ac yn yr awyr agored), cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do ac yn yr awyr agored), perfformiad dawns (dan do ac yn yr awyr agored) ac adloniant o ddisgrifiad tebyg (dan do ac yn yr awyr agored).

Dydd Llun i Ddydd Sul: 10:00 i 23:30 o'r gloch
Nos Galan: 10:00 tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan

(iii) Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (dan do ac awyr agored):

Nos Galan: 23:00 i 05:00

Ffurflen Gais

Cyflwynodd Martin Jones o Hugh James Solicitors y cais.

Mae gan yr ymgeiswyr berthynas ddibynadwy gyda'r awdurdodau cyfrifol ac mae ganddynt gyfarwyddrwydd â gweithredu digwyddiadau, er enghraifft yn y Castell a Pharc Bute. Mae Depot Warehouse Limited ag adnoddau priodol, ac mae gweithrediad o'r natur hon yn gofyn am adnodd ariannol a gwybodaeth dechnegol.

Yr amodau a gynigir yw'r rhai sydd mewn grym mewn lleoliadau eraill a weithredir gan Depot Warehouse Limited sy'n agosach at y ddinas ac eiddo preswyl y mae'r safle ymgeisio.

Nododd yr Is-Bwyllgor fod yr amodau a awgrymwyd gan yr ymgeisydd a Heddlu De Cymru wedi eu cytuno gan yr holl bartïon. Ni fyddai sylwadau gan Heddlu De Cymru.

Fe wnaeth Mr Jones annerch y pwyllgor ar sail y gwrthwynebiadau a godwyd:

- Cysylltwyd â'r gwrthwynebydd ar sawl achlysur heb dderbyn ymateb.
- Mae'n byw yn Adventurers Quay, sy'n floc preswyl eithaf mawr; Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau eraill. Nid yw Tiger Yard yn agos at unrhyw eiddo preswyl.
- Mae pryderon wedi eu codi mewn perthynas â'r traffig a'r ymwelwyr sy'n achosi problemau i siopau a gwasanaethau yn yr ardal, does dim pryderon wedi eu mynegi o gwbl ac nid yw'n fater i'r Is-bwyllgor.
- Er bod sŵn yn fater i'w ystyried gan yr Is-bwyllgor, nid yw pryderon y gwrthwynebydd yn ystyried yr amodau sy'n cael eu cynnig a'u derbyn. Mae'r Ymgeiswyr wedi ceisio mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gyda'r gwrthwynebydd yn anffurfiol.

Nid oedd gan yr Is-Bwyllgor unrhyw gwestiynau a chynghorodd Mr Jones nad oedd ganddo unrhyw beth pellach i'w ychwanegu drwy grynhoi.

PENDERFYNWYD: Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn CYMERADWYO y cais.

Clywodd yr Is-bwyllgor gan yr ymgeisydd a gwrandawodd ar yr holl dystiolaeth a chyflwyniadau ac ystyriodd y deunydd ysgrifenedig. Hefyd ystyriodd yr Aelodau Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a'r Datganiad Polisi Trwyddedu.

Rydym wedi clywed gan yr ymgeisydd a gwrandawodd ar yr holl dystiolaeth a chyflwyniadau ac ystyriodd y deunydd ysgrifenedig. Rydym hefyd wedi ystyried Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllawiau Adran 182, ein Datganiad Polisi Trwyddedu ein hunain ac ystyriwyd yr holl sylwadau ysgrifenedig a wnaed i ni.

Nodwn, cyn y cyfarfod, eich bod wedi cyflwyno nifer o amodau ychwanegol i ddiwallu'r amcanion trwyddedu yn Atodiad B i'r adroddiad. Fe wnaethoch hefyd

gytuno i'r amodau arfaethedig gan Heddlu De Cymru a Rheoli Llygredd Iechyd yr Amgylchedd.

Rydym wedi ystyried y sylwadau gan aelod o’r cyhoedd ond teimlai na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth y byddai cymeradwyo'r cais hwn yn tanseilio'r amcanion trwyddedu. Os nad oes tystiolaeth y bydd Trwydded Safle yn tanseilio'r amcanion trwyddedu, rhagdybir y caniateir y cais.

Felly, rydym yn penderfynu cymeradwyo’r cais yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt gyda Heddlu De Cymru a’r adran Rheoli Llygredd Iechyd yr Amgylchedd, a’r amodau ychwanegol y gwnaethoch ei gynnig yn Atodiad B i’r adroddiad.

8 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm